

## Gweithgor Llywodraeth Leol - Argymhellion

### Atgoffâd o dasg graidd y Gweithgor

Tasg graidd y Gweithgor yw datblygu agenda a rennir ar gyfer diwygio sy'n sicrhau cynaliadwyedd darpariaeth gwasanaethau lleol drwy: strwythurau a phrosesau priodol - boed hynny'n gydweithio, gwasanaethau a rennir neu uno gwirfoddol - pob un o fewn fframwaith atebolrwydd democrataidd ac wedi'u grymuso gan swyddogaethau, pwerau a dulliau hyblyg ychwanegol, y fframwaith ariannol priodol a chymorth neu ddulliau eraill sydd eu hangen ar gyfer newid.

### Mae'r meysydd wedi'u harlliwio wedi'u hargymhell i'w cynnwys yng nghylch gwaith is-grŵp newydd y Cyngor Partneriaeth

#### Cydweithio a strwythurau

Maes	Gweithgarwch sy'n mynd rhagddo neu a gyflawnwyd	Argymhellion
<p><b>Maes 1: Trefniadau rhanbarthol</b></p> <p>Edrych ar y <b>trefniadau rhanbarthol</b> presennol a nodi lle mae cyfle i symleiddio ac integreiddio gweithgarwch ( gan awdurdodau a phartneriaid), cyfle i ddatblygu yn y dyfodol a chyfle i ailgynllunio gwasanaethau a sefydlu'r egwyddorion a ddylai fod yn sail i waith rhanbarthol pellach.</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cwblhawyd adolygiad cyflym o'r partneriaethau presennol a datblygwyd Casgliad Cydweithio.</li> <li>2. Cytundeb cynnar ynghylch yr angen am ddulliau mwy cyson sy'n darparu dulliau rheolaeth ddemocrataidd symlach ar gyfer gweithio'n rhanbarthol.</li> <li>3. Cytuno ar fframwaith o egwyddorion i fod yn sail i gydweithio.</li> <li>4. Comisiynu cydadolygiad mwy cynhwysfawr o bartneriaethau strategol <b>(Yn mynd rhagddo – CLILC/LIC)</b></li> <li>5. Cytunwyd y byddai CLILC yn cydlynu'r gwaith o ddatblygu Cod Ymarfer Cydweithredol i ddarparu dull cyson mewn perthynas â llywodraethu da ar y cyd.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Y dylai is-grŵp llywodraeth leol newydd y Cyngor Partneriaeth symud yr agenda ar gyfer gweithio'n rhanbarthol ymlaen. <b>(CLILC/LIC)</b></li> <li>2. Y dylai CLILC gydlynu'r gwaith o ddatblygu Cod Ymarfer Cydweithredol i'w gytuno ag is-grŵp newydd y Cyngor Partneriaeth, ac y dylai pob awdurdod lleol ei fabwysiadu erbyn dyddiad cytûn. <b>(CLILC/LIC)</b></li> <li>3. Y dylai Gweinidogion Cymru gynnwys darpariaethau ym Mil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ar gyfer dull cyson o weithio'n rhanbarthol. <b>(LIC)</b></li> <li>4. Y dylai CLILC a llywodraeth leol gynnal y Casgliad Cydweithio <b>(CLILC/LIL)</b> a gwneud y canlynol:</li> </ol>

	<p><b>(Yn mynd rhagddo – CLILC/LIC)</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Ei ddiweddarau'n flynyddol;</li> <li>○ Ymhelaethu arno i gynnwys cydweithio ehangach rhwng gwasanaethau cyhoeddus;</li> <li>○ Adrodd arno i gabinetau'r cyngor, byrddau partneriaeth rhanbarthol a Chyngor CLILC yn flynyddol er mwyn adolygu cydweithio presennol ac vstried cydweithio newydd posibl</li> </ul> <p>5. Y dylai'r cydadolygiad o bartneriaethau strategol adrodd yn ôl i'r Cyngor Partneriaeth ar yr argymhellion terfynol ar 2 Hydref, a rhoi canfyddiadau interim i'r Cyngor Partneriaeth ym mis Mehefin. Dylai'r Cyngor Partneriaeth adolygu trefniadau partneriaeth yn rheolaidd. <b>(CLILC/LIC)</b></p>
<p><b>Maes 2: Cydwasanaethau</b></p> <p>Nodi meysydd lle mae awydd a digon o achos dros <b>wasanaethau a rennir</b> a'r camau gofynnol i wneud cynnydd.</p>	<p>6. LIC i barhau i ystyried cydwasanaethau lle mae achos busnes yn cefnogi hynny. <b>CLILC/LIL</b></p> <p>7. Mae'r Casgliad Cydweithio yn cofnodi'r sefyllfa bresennol (gweler uchod).</p> <p>8. Mae Rhaglen Digidol Llywodraeth Leol wedi dechrau.</p>	<p>6. Y dylai cabinetau awdurdodau lleol a byrddau rhanbarthol dderbyn ac adolygu'r Casgliad yn flynyddol er mwyn llywio ystyriaethau ar gyfer unrhyw gydweithio newydd (gweler uchod). <b>(CLILC/LIC)</b></p> <p>7. Y dylai Rhaglen Digidol Llywodraeth Leol symud ymlaen â'i beilot ar gyfer canolfan gyswllt ar y cyd. <b>(LIL/CLILC/LIC)</b></p>
<p><b>Maes 3: Uno gwirfoddol</b></p> <p>Llunio prospectws sy'n amlinellu'r materion allweddol y gallai awdurdodau posibl sy'n uno eu</p>	<p>9. Cytunodd y gweithgor ar fframwaith ar gyfer egwyddorion uno gwirfoddol.</p> <p>10. Cytunwyd i gynnwys darpariaethau ar gyfer uno gwirfoddol ym Mil Llywodraeth Leol ac</p>	<p>8. Y dylai'r gweithgor gytuno ar y prospectws drafft ar gyfer uno gwirfoddol, sy'n darparu'r dull a'r broses ar gyfer uno gwirfoddol yn y dyfodol <b>(Gweithgor)</b>.</p>

<p>defnyddio i brofi'r achos dros newid o fewn eu cyd-destun <b>(uno gwirfoddol)</b>.</p>	<p>Etholiadau (Cymru).</p> <p>11. Paratowyd prosiectws drafft ar gyfer uno gwirfoddol.</p>	<p>9. Y dylai awdurdodau lleol sy'n ystyried uno gwirfoddol ddefnyddio'r prosiectws fel fframwaith i lywio cynigion a chychwyn trafodaethau gyda'r sector llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru. <b>(LIL)</b></p> <p>10. Y dylai is-grŵp newydd y Cyngor Partneriaeth gadw'r prosiectws dan arolwg a'i ddiweddarau, lle y bo'n briodol. <b>(CLILC/LIC)</b></p>
---	--	---

<b>Pwerau a dulliau hyblyg</b>		
<b>Maes</b>	<b>Gweithgarwch sy'n mynd rhagddo neu a gyflawnwyd</b>	<b>Argymhellion</b>
<p><b>Maes 4: Pwerau a dulliau hyblyg</b></p> <p>Nodi <b>pwerau penodol, gan gynnwys pwerau a ariennir, a dulliau hyblyg</b> a fyddai'n cefnogi'r llywodraeth leol i gyflawni ei dyheadau ar gyfer cymunedau a galluogi cymunedau i gyflawni eu rhai nhw.</p>	<p>12. Trafodwyd yn y cyfarfod ym mis Medi a nodwyd papur ym mis Tachwedd. Amlygodd CLILC flaenoriaethau i'w hystyried ar gyfer newid deddfwriaethol, ac ymatebodd LIC i bob un o'r blaenoriaethau hyn, gydag eglurder ar ba awgrymiadau a fyddai'n addas i'w cynnwys ym Mil Llywodraeth Leol ac Etholiadol; pa awgrymiadau all fod yn destun trafodaeth bellach; a pha rai nad oeddent yn addas i'w cynnwys yn y Bil.</p>	<p>11. Y dylai'r gweithgor nodi'r gwaith a wnaed ar lefel swyddogol i drafod awgrymiadau ar gyfer pwerau a hyblygrwydd ychwanegol, y dylai'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol gael ei symud ymlaen drwy'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau, ac y dylai trafodaeth adeiladol barhau ar rai pwyntiau eraill a amlygwyd yn flaenoriaethau. <b>(CLILC/LIC)</b></p> <p>12. Y dylai trafodaeth ynghylch unrhyw gynigion yn y dyfodol yn ymwneud â hyblygrwydd ariannol gael ei hystyried gan yr Is-grŵp Cyllid. <b>(CLIC/LIC)</b></p>
<p><b>Maes 5:</b> Archwilio'r <b>trefniadau presennol a ddefnyddir ar gyfer ffurfio, ymgynghori ar, a gweithredu newid mewn polisiau</b> er mwyn sicrhau bod llais a buddiannau llywodraeth leol yn cael eu clywed a'u hadlewyrchu'n gywir mewn penderfyniadau.</p>	<p>13. Trafodwyd ym mis Medi fel rhan o'r eitem Parch gan y naill at y llall, ond mae angen ei ystyried ymhellach.</p>	<p>13. Gweler 'Parch gan y naill ar y llall a rhannu cyfrifoldebau' isod.</p>

<b>Dinasyddiaeth weithgar</b>		
<b>Maes</b>	<b>Gweithgarwch sy'n mynd rhagddo neu a gyflawnwyd</b>	<b>Argymhellion</b>
<p><b>Maes 6: Amrywiaeth mewn llywodraeth leol</b></p> <p>Cynghori ar sut y gellir cyflawni mwy o amrywiaeth o ran cynrychiolaeth llywodraeth leol ac ymysg uwch swyddogion.</p>	<p>14. Trafodwyd yn fras fel rhan o drafodaeth ynghylch cynnwys y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau.</p> <p>15. Er nad oedd yn rhan o drafodaethau'r Gweithgor, darparodd CLILC a Llywodraeth Cymru dystiolaeth ar wahân i'r ymchwiliad 'Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol' a gynhaliwyd gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad, a thrafodwyd y mater rhwng Gweinidogion ac arweinwyr.</p>	<p>14. Argymhellir y dylai'r gwaith hwn gael ei symud ymlaen fel rhan o gam nesaf y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. <b>(CLILC/LIC)</b></p>
<p><b>Maes 7: Tâl aelodau etholedig</b></p> <p>Ystyried cynghorwyr, eu cyflog a'u rolau, a pha newidiadau, ar yr un lefel cyflog gyffredinol, allai sicrhau mwy o amrywiaeth a gallu ymysg aelodau etholedig.</p>	<p>15. Trafodwyd yng nghyfarfod mis Medi a dosbarthwyd adroddiad gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i aelodau.</p>	<p>15. Argymhellir y dylai hyn gael ei ystyried yn llinyn wrth symud y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth ymlaen. <b>(CLILC/LIC)</b></p>

<b>Newid gwasanaeth a'r sefyllfa ariannol</b>		
<b>Maes</b>	<b>Gweithgarwch sy'n mynd rhagddo neu a gyflawnwyd</b>	<b>Argymhellion</b>
<p><b>Maes 8: Achos dros fuddsoddiad ac ymgysylltu ynghylch materion ariannol</b></p> <p>Bydd y Gweithgor yn canolbwyntio ar ddatblygu'r achos dros fuddsoddi mewn gwasanaethau llywodraeth leol oherwydd y gwerth maent yn ei greu i'r cyhoedd.</p>	<p>16. Cyflwynodd CLILC eitem yng nghyfarfod mis Tachwedd, ond nid oedd cyfle i ailedrych arni oherwydd i gyfarfod gael eu canslo. Roedd cam gweithredu i fapio grwpiau sy'n trafod materion ariannol ac adrodd yn ôl i'r gweithgor.</p> <p>17. Ysgrifennodd y Gweinidog at Arweinydd CLILC yn atgyfnerthu rôl yr Is-grŵp Cyllid fel fforwm allweddol ar gyfer trafod materion ariannol strategol, gan gynnwys ei bwriad i ymgysylltu â chydweithwyr Gweinidogol drwy'r dull hwn.</p> <p>18. Mae'r Gweinidog hefyd wedi cytuno y dylai cyfarfodydd yr Is-grŵp Cyllid gael eu cynnal yn gynharach ac yn fwy aml er mwyn caniatáu ystyriaeth ac ymgysylltiad digonol ynghylch tua £4bn o gyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.</p>	<p>16. Y dylid nodi'r canlynol fel y grwpiau lle mae LIC a LIL yn ymgysylltu ynghylch materion ariannol strategol:</p> <p><b>Aelodaeth wleidyddol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfarfodydd dwyochrog Gweinidogol gyda CLILC</li> <li>• Y Cyngor Partneriaeth</li> <li>• Yr Is-grŵp Cyllid (y Cyngor Partneriaeth)</li> <li>• Y Grŵp Cynghori Trethi</li> </ul> <p><b>Lefel swyddogion:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Is-grŵp Dosbarthu (DGS) (materion dosbarthu)</li> <li>• Grŵp Buddsoddi Cyllid Cyfalaf (materion cyllid cyfalaf)</li> <li>• Cymdeithas Trysoryddion Cymru (SWT) (a gweithrediaeth SWT)</li> <li>• Grŵp Refeniw a Budd-daliadau Cymru (a'r 4 grŵp deilliedig ar fregusrwydd)</li> <li>• Gweithgor Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol</li> <li>• Grŵp Llywio Dadansoddi Gwariant y Dyfodol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol</li> </ul> <p>17. Y dylai'r Is-grŵp Cyllid gael ei ddefnyddio'n fforwm ar gyfer trafodaethau ynghylch materion ariannol strategol.</p>
<p>Nid y Gweithgor fydd y prif fforwm ar gyfer archwilio sefyllfa ariannol llywodraeth leol a'r achos dros ariannu; Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru fydd yn gyfrifol yn bennaf am hyn. Fodd bynnag, efallai y bydd y Gweithgor yn ystyried y strwythur sy'n cefnogi gwaith yr Is-grŵp Cyllid ac yn ystyried sut y gellir cynyddu cyfraniad aelodau at y broses hon a chodeiddio dulliau sydd eisoes yn bodoli.</p>		

<b>Newid gwasanaeth a'r sefyllfa ariannol</b>		
<b>Maes</b>	<b>Gweithgarwch sy'n mynd rhagddo neu a</b>	<b>Argymhellion</b>
		<p>18. Y dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol, drwy CLILC, adnewyddu ac atgyfnerthu dealltwriaethau presennol mewn un ddogfen gytûn drwy'r Is-grŵp Cyllid, sy'n cynnwys strwythur ac egwyddorion ymgysylltu a materion, fel cyd-ddealltwriaeth o bwysau ariannol a gwasanaeth, cyfleoedd a chyd-destun, gan gynnwys cyfrifoldebau newydd ac adolygiad parhaus o grantiau penodol a'u trosglwyddo, lle bo hynny'n briodol, i'r Grant Cynnal Refeniw. <b>(LIC/CLILC)</b></p>





<p><b>Maes 9: Gwella a chymorth</b></p> <p>Penderfynu pa adnoddau sydd eu hangen i sefydlu gwelliant newydd a arweinir gan y sector a chefnogi trefniadau mewn llywodraeth leol, gan gynnwys trawsnewid digidol, asesu gan gymheiriaid a hunanasesu, a chymorth corfforaethol a gwasanaeth.</p>	<p>20. Trafododd y Gweithgor yr eitem hon yn ei gyfarfod ym mis Ionawr.</p> <p>21. Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i gefnogi creu swyddogaeth gwella newydd. Trafodwyd cynnydd tuag at y nod hwn mewn cyfarfod tymhorol rhwng y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ac Arweinydd CLILC ar 7 Mai, lle y cytunwyd y bydd CLILC yn arwain ar ddatblygu cynigion wedi'u costio ar gyfer y trefniadau a'r grant gwella.</p>	<p>19. Y dylai CLILC arwain ar gyd-ddatblygu trefniadau gwella a chymorth newydd dan arweiniad y sector. <b>(CLILC)</b></p> <p>20. Y dylid adrodd i is-grŵp newydd y Cyngor Partneriaeth ar y trefniadau gwella a chymorth newydd. <b>(CLILC)</b></p>
---	--	---

**Parch gan y naill at y llall a rhannu cyfrifoldebau**

<b>Maes</b>	<b>Gweithgarwch sy'n mynd rhagddo neu a gyflawnwyd</b>	<b>Argymhellion</b>
<p><b>Maes 10: Parch at y naill a'r llall a rhannu cyfrifoldebau</b></p> <p>Ystyried sut y gellir datblygu ac ymgorffori parch gan y naill at y llall rhwng cynrychiolwyr etholedig yn lleol ac yn genedlaethol, gan sicrhau mwy o gysondeb a dealltwriaeth well o'r rolau a'r cyfrifoldebau perthnasol.</p>	<p>22. Trafodwyd yn y cyfarfod ym mis Medi ac roedd cam gweithredu i ddiweddu'r dull a amlinellwyd yn y papur.</p> <p>23. Bu'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn glir bod perthynas waith gadarnhaol ac ymgysylltiad parhaus â llywodraeth leol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant diwygio llywodraeth leol.</p> <p>24. Bu parch gan y naill at y llall a rhannu cyfrifoldebau yn thema greiddiol o drafodaethau ar holl eitemau agenda'r Gweithgor, ac mae sawl un o'r meysydd a nodwyd wedi symud ymlaen:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Cyngor Partneriaeth wedi cael ffocws newydd gan Brif Weinidog newydd Cymru a'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, ac mae wedi cyfarfod ddwywaith yn barod ers y flwyddyn newydd;</li> <li>• Mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a/neu'r Dirprwy Weinidog wedi cytuno i fynychu pob un o gyfarfodydd Bwrdd Gweithredol neu Gyngor CLILC (lle mae eu dyddiaduron yn caniatáu);</li> <li>• Bydd Bil Llywodraeth Leol (Cymru) sydd ar ddod yn cyflwyno system lywodraethu a pherfformiad mwy hyblyg ar sail hunanwella, wedi'i thanategu gan gymorth gwella dan arweiniad y sector, y mae'r Gweinidog wedi cytuno i ddarparu cyllid ar ei chyfer trwy CLILC.</li> </ul>	<p>21. Y caiff is-grŵp newydd o Gyngor Partneriaeth Cymru ei greu i barhau â'r ymgysylltiad hwn ar ôl i'r Gweithgor ddod i ben, ac y dylai ffordd hon o weithio fod yn sail ar gyfer ethos a diwylliant y grŵp hwnnw <b>(LIC/CLILC)</b>.</p> <p>22. Y dylai Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol adeiladu ar y strwythurau a'r berthynas bresennol, gan ymgorffori'r gwerthoedd cyffredin hyn drwy gydol ein gwaith gyda'n gilydd, a gwella ymgysylltiad â'r Prif Weinidog, y Cabinet a Gweinidogion portffolios unigol <b>(LIC/CLILC)</b>.</p> <p>23. Y dylai cyfarfod blynyddol gael ei gynnal rhwng Prif Weinidog Cymru a CLILC, a chyfarfod blynyddol rhwng y Cabinet ac arweinwyr CLILC <b>(LIC/CLILC)</b>.</p> <p>24. Y dylai fod ymrwymiad i gynnal cyfarfod ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn i drafod materion strategol â Gweinidogion unigol <b>(LIC/CLILC)</b>.</p> <p>25. Y dylai'r Cytundeb Partneriaeth gael ei ymestyn i ymdrin â'r materion hyn yn ei adolygiad nesaf <b>(LIC/CLILC)</b>.</p>



<b>Parch gan y naill at y llall a rhannu cyfrifoldebau</b>		
<b>Maes</b>	<b>Gweithgarwch sy'n mynd rhagddo neu a gyflawnwyd</b>	<b>Argymhellion</b>
	25. Caiff Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ei adolygu a'i adrodd arno'n flynyddol.	